**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**
**Minister for Local Government and Communities**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MB/CS/5953/11

Y Comisiynwyr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

15 Awst 2011

Annwyl bawb

Diolch i chi am eich adroddiad diweddaru cyntaf ar y cynnydd o fewn Cyngor Sir Ynys Môn ers i chi gael eich penodi'n Gomisiynwyr ddiwedd mis Mawrth. Ar ôl darllen eich adroddiad roeddwn yn falch o weld bod peth cynnydd pendant wedi'i wneud ers i chi gael eich penodi.

Rwyf hefyd wedi ystyried yn ofalus y gyfres o argymhellion a gyflwynwyd i mi yn yr adroddiad. Rwy'n cytuno â'r argymhellion ac yn cydnabod y cynnydd yr ydych chi wedi'i wneud a'ch ymrwymiad i gryfhau a diwygio Cyngor Sir Ynys Môn, yn wleidyddol ac yn gorfforaethol.

Roeddwn yn arbennig o falch o ddarllen am yr arwyddion gobeithiol o newid yn ymddygiad ac agweddau'r aelodau etholedig. Rwy'n cael ar ddeall o ddarllen eich adroddiad bod llawer o'r aelodau etholedig wedi derbyn fy ymyrraeth a hefyd eich presenoldeb chi o fewn y Cyngor, ac yn eu hystyried yn gyfle i symud pethau yn eu blaenau. Rwy'n croesawu hynny yn fawr ac yn gobeithio bod y newid cadarnhaol hwn yn un parhaol. Os oes yna unrhyw aelodau o hyd nad ydynt wedi newid eu hymddygiad, rwy'n disgwyl i chi a'r aelodau eraill amlygu, ynysu a herio hynny.

Yn anffodus, mae eich adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y gwendidau sy'n dod i'r amlwg yng nghanolfan gorfforaethol y Cyngor, ac mewn rhai meysydd gwasanaeth. Wrth edrych yn ôl, nid yw hynny'n syndod. Rwyf wedi dweud ers tro bod y camymddygiad gwleidyddol hirdymor yn bygwth y gwaith o ddarparu gwasanaethau, ac mae eich adroddiad yn brawf pellach o hynny.

Fodd bynnag, y dasg yn awr wrth gwrs yw datrys y gwendidau hynny yn effeithiol ac mewn modd cynaliadwy. Mae hynny'n arbennig o wir lle mae'r risgiau i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau wedi troi yn rhai diriaethol, fel ag yn achos adroddiad diweddar Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Gyda'ch presenoldeb dyddiol chi o fewn y Cyngor, a'ch blaenoriaethau a blaenraglen y Comisiynwyr, yr wyf yn eu cefnogi'n llwyr,

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*    *Printed on 100% recycled paper*

rwy’n hyderus y gallwch chi gyflawni’r nod. Wrth wneud hynny, rwy’n gwybod y byddwch yn cydweithio’n agos iawn â’r Prif Weithredwr dros dro a’i dîm o uwch-reolwyr i gryfhau ac ailstrwythuro’r gwasanaeth corfforaethol. Unwaith eto, rwy’n croesawu’r dull hwn o weithredu ac yn edrych ymlaen at glywed y canlyniadau.

Rwy’n parhau i fod yn hynod ddiolchgar i chi a’r Prif Weithredwr dros dro am eich ymrwymiad parhaus i sicrhau bod y Cyngor yn cael ei adfer mewn modd cynaliadwy. Rwy’n edrych ymlaen at dderbyn eich ail adroddiad diweddaru ym mis Medi.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Richard Parry Jones. Byddwn hefyd yn hapus i chi ei gyhoeddi ochr yn ochr â’ch adroddiad.

**Carl Sargeant AC / AM**

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Local Government and Communities